Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

Estyn
Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Gylch Meithrin Y Parc
# Capel Salem
# Heol y Farchnad
# Treganna
# CF5 1QE

**Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2020**

**gan**

**Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)**

**a**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn â Chylch Meithrin Y Parc

| | |
|---|---|
| Enw'r lleoliad | Cylch Meithrin y Parc |
| Categori'r gofal a ddarperir | Gofal dydd llawn |
| Person(au) cofrestredig | Manon Paschalis |
| Unigolyn cyfrifol (os yw'n berthnasol) | |
| Person â gofal | Manon Paschalis |
| Nifer y lleoedd | 19 |
| Amrediad oedran y plant | 2 - 5 oed |
| Nifer y plant a ariennir am hyd at 2 dymor | 0 |
| Nifer y plant a ariennir am hyd at 5 tymor | 0 |
| Diwrnodau / amseroedd agor | Dydd Llun i ddydd Gwener yn ystod tymhorau ysgol, rhwng 8:30yb a 3:00yp |
| Gwasanaeth Dechrau'n Deg | Nac ydy |
| Iaith y lleoliad | Cymraeg |
| A yw'r Cynnig Gofal Plant ar gael yn y lleoliad hwn? | Ydy |
| Cynnig y Gymraeg yn Rhagweithiol | Mae'r gwasanaeth hwn yn darparu 'cynnig gweithredol' y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth. |
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGC | 06/09/2017 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn | Tachwedd 2012 |
| Dyddiadau'r ymweliad(au) arolygu hwn/hyn | 10/03/2020 |
| Gwybodaeth ychwanegol | |

| |
|---|
| Mae llawer o blant yn siarad Cymraeg ar yr aelwyd. |

## Crynodeb

| Thema | Barn |
|---|---|
| **Lles** | **Da** |
| **Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Da** |
| **Gofal a datblygiad** | **Da** |
| **Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Da** |
| **Yr amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Diffyg cydymffurfio

**Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio yn ystod yr arolygiad hwn.**

## Argymhellion

A1 Cynllunio gwell cyfleoedd i ddatblygu medrau corfforol y plant

A2 Olrhain cynnydd plant yn effeithiol i'w symud ymlaen i'r camau nesaf yn eu dysgu

A3 Sicrhau bod arferion monitro'r pwyllgor rheoli yn drylwyr a chyson

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

**Lles: Da**

Mae'r rhan fwyaf o blant yn mynegi eu teimladau'n glir ac yn gwneud dewisiadau a phenderfyniadau effeithiol ynglŷn â ble, a chyda phwy, i chwarae. Er enghraifft, yn ystod chwarae rhydd, mae'r rhan fwyaf yn symud rhwng gweithgareddau gwahanol yn hyderus. O ganlyniad, maent yn dilyn eu hoffterau personol yn effeithiol, fel defnyddio'r adnoddau chwarae rôl yng nghaffi siop y fferm. Yn ogystal, mae llawer yn cyfrannu syniadau dychmygus ar gyfer themâu trwy ddefnyddio 'mapiau meddwl' i ddewis gweithgareddau ar gyfer y tymor.

Mae bron pob plentyn yn fodlon ac yn gyfforddus yng ngofal yr ymarferwyr. Maent yn cyrraedd yn eiddgar ac yn ymdopi heb drafferth wrth wahanu oddi wrth eu rhieni a'u gofalwyr. Mae llawer yn dechrau ar weithgareddau yn annibynnol yn syth ar ôl iddynt gyrraedd ac maent yn edrych ymlaen at drefn y dydd, sy'n gyfarwydd iddynt. Mae bron pob plentyn yn deall bod yr ymarferwyr yn gwrando ar eu dymuniadau ac yn rhoi cysur iddynt pan fo angen. O ganlyniad, mae unrhyw blentyn sy'n teimlo'n sâl neu'n ansicr yn cael sylw uniongyrchol oddi wrth eu gweithiwr allweddol neu ymarferydd arall.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn cydweithio'n effeithiol ac yn mwynhau cwmni cyfoedion a'r ymarferwyr. Mae llawer yn rhannu adnoddau'n dda ac yn dyfeisio gemau chwarae rôl sy'n dilyn eu diddordebau, fel chwarae gyda'r offer meddygol i drin heintiau ei gilydd. Mae bron pob un yn awyddus i ymuno a chyfrannu i ganeuon a straeon yn ystod amser cylch ac maent yn dangos pleser wrth wneud hyn. Mae llawer yn dechrau dysgu sut i aros eu tro ac maent yn dangos amynedd da, fel pan fyddant yn golchi dwylo mewn grwpiau bach cyn amser byrbryd. Yn ogystal, mae'r plant hŷn yn awyddus i gefnogi'r rhai iau wrth dorri toes a golchi'r llestri ar ôl eu byrbrydau.

Mae bron pob plentyn yn mwynhau dysgu medrau newydd wrth iddynt arbrofi ag amrywiaeth eang o gyfleoedd chwarae diddorol. Er enghraifft, mae llawer ohonynt yn arbrofi â phren ac yn dilyn cyfarwyddiadau i adeiladu cadeiriau bach sy'n cyrraedd mewn pacedi fflat. O ganlyniad, maent yn datblygu medrau creadigol buddiol ac yn dangos dyfalbarhad. Mae'r rhan fwyaf yn mwynhau gwaith celf ac yn falch o'u paentiadau o gennin pedr a'u hunanbortreadau, sy'n cael eu harddangos ar y wal. Yn ogystal, mae'r rhan fwyaf yn datblygu ystod o fedrau annibynnol da. Er enghraifft, maent yn arllwys diodydd yn ofalus ac yn defnyddio gefeiliau yn fedrus i ddewis eu bwyd yn ystod amser byrbryd.

**Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Da**

Mae'r rhan fwyaf o blant yn cyflawni'n effeithiol yn ystod eu hamser yn y lleoliad. O ganlyniad, maent yn datblygu medrau llythrennedd, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) pwrpasol, sy'n effeithio'n gadarn ar eu dysgu.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn gwrando ar gyfarwyddiadau a gweithredu arnynt yn llwyddiannus. Maent yn canolbwyntio'n drylwyr wrth rolio toes i greu picau ar y maen

ac maent yn gwerthu nwyddau wrth gownter siop y fferm yn hyderus. Mae llawer yn cyfathrebu'n glir wrth ymateb i drafodaethau ac yn defnyddio geiriau ac ymadroddion Cymraeg yn huawdl. Er enghraifft, maent yn disgrifio nodweddion llysiau gwahanol fel 'radis' a 'seleri' yn gywir a dealladwy. Yn ogystal, maent yn awyddus i ymateb i gerddoriaeth ac yn ymuno'n frwdfrydig mewn caneuon cyfarwydd am y tymhorau a'u teimladau.

Mae llawer o blant yn diddori mewn llyfrau ac yn ystyried eu cynnwys yn dda. Maent yn trafod digwyddiadau yn ystyrlon ac yn trin llyfrau fel darllenwyr hyderus. Maent hefyd yn ymateb â diddordeb i gynnwys storïau, fel dynwared synau anifeiliaid y fferm. Mae llawer yn gwneud marciau'n bwrpasol gyda chyfryngau gwahanol fel sialc a phaent, ac yn cwblhau llythyron ac amlenni yn ddiwyd. O ganlyniad, maent yn mwynhau eu profiadau ysgrifennu cynnar ac maent yn esbonio pwrpas eu hysgrifennu yn eglur.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn defnyddio iaith fathemategol yn effeithiol ac mewn cyd-destunau cywir. Maent yn cyfrif hyd at 10 yn hyderus ac yn defnyddio siapiau tri dimensiwn 'mawr' a 'bach' yn ddeallus, i adeiladu tyrau o wahanol feintiau. Maent yn dewis offer a deunyddiau perthnasol i ddatrys problemau mathemategol yn dda. Er enghraifft, maent yn paratoi cymysgedd crempog trwy bwyso'r cynhwysion yn ofalus â chlorian, a chymharu taldra ei gilydd yn gynhyrfawr gyda thâp mesur. Yn ogystal, maent yn arbrofi â chyfeintiau 'llawn' a 'gwag' yn bwrpasol trwy lenwi blychau gyda thywod neu ddŵr.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn datblygu medrau TGCh yn llwyddiannus trwy ddefnyddio llechi a theganau electronig yn effeithlon. O ganlyniad, maent yn ymgyfarwyddo'n dda â'r dechnoleg trwy ddefnyddio'r cyfarpar yn rheolaidd yn eu gweithgareddau dyddiol.

Mae llawer o blant yn datblygu medrau corfforol digonol trwy ddefnyddio'r wal ddringo a dawnsio yn achlysurol. Mae'r rhan fwyaf yn datblygu medrau meddwl a chreadigol pwrpasol, sy'n effeithio'n gadarn ar eu dysgu. Er enghraifft, maent yn creu patrymau diddorol trwy edafu llinyn o gwmpas ymylon rhifau a pheintio blodau'r gwanwyn a'r enfys yn annibynnol.

## Gofal a datblygiad: Da

Mae'r ymarferwyr yn dilyn systemau a gweithdrefnau trylwyr er mwyn sicrhau iechyd a diogelwch plant. Mae ganddynt ddealltwriaeth gref o'u cyfrifoldebau ac yn darparu cyfleoedd da i blant ddatblygu yn ôl eu hoedran a'u gallu. Er enghraifft, maent yn hybu arferion cadw'n iach yn rheolaidd ac yn pwysleisio pwysigrwydd trin pobl â pharch a chwrteisi. Yn ystod sesiynau torfol, mae'r ymarferwyr yn arwain sgyrsiau gyda'r plant yn ddeallus. O ganlyniad, maent yn siarad yn frwdfrydig am 'dair rheol y cylch,' sy'n canolbwyntio ar ofalu am eu hunain, eu ffrindiau a'u lleoliad.

Mae'r ymarferwyr yn cadw cofnodion trwyadl o unrhyw bryderon, damweiniau, digwyddiadau a gwybodaeth bersonol. Mae hyfforddiant yr holl ymarferwyr ynglŷn ag amddiffyn plant yn gyfredol ac maent yn gadarn wrth drafod unrhyw broblemau neu bryderon sy'n codi. Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder. Mae gan y lleoliad weithdrefnau pwrpasol i gefnogi plant ag anghenion addysgol arbennig. Mae'r ymarferwyr yn gweithredu ar gyngor asiantaethau arbenigol yn ddiwyd er lles y plant. Yn ogystal, mae'r partneriaethau â'r rhieni yn effeithiol i gefnogi eu plant.

Mae tystysgrifau cymorth cyntaf cyfredol a hylendid bwyd gan bob un o’r ymarferwyr, sy’n cefnogi’r plant yn dda. Maent yn darparu bwyd maethlon ac iachus ac mae dŵr ffres ar gael i blant yn ddyddiol. Mae’r gweithdrefnau ac arferion hylendid yn effeithiol ac mae’r ymarferwyr yn annog y plant i olchi eu dwylo ar yr amseroedd priodol yn fwriadus.

Mae’r ymarferwyr yn cefnogi’r plant i reoli eu hymddygiad yn llwyddiannus. Mae ganddynt wybodaeth dda am anghenion a hoffterau pob plentyn. Maent yn gweithredu ar wybodaeth gan rieni wrth gofrestru ac maent yn wybodus am anghenion unigolion. Mae’r ymarferwyr yn modelu ymddygiad effeithiol ac yn helpu’r plant i ddatblygu dealltwriaeth o’u hemosiynau yn bwrpasol. Er enghraifft, mae’r ymarferwyr yn annog plant i drafod eu teimladau gyda’i gilydd yn synhwyrol yn ystod amser cylch.

Mae’r ymarferwyr yn darparu cyfleoedd effeithiol i’r plant ddatblygu dealltwriaeth o’u Cymreictod ac o’r byd ehangach. O ganlyniad, maent yn dysgu sut i drin pobl o bob diwylliant gyda pharch a goddefgarwch. Er enghraifft, maent yn dathlu defodau’r Flwyddyn Newydd Tseiniaidd, yn ogystal â Dydd Gŵyl Dewi a’r Nadolig.

Mae Cynnig Gweithredol y Gymraeg ar waith yn y lleoliad. Mae’r ymarferwyr yn frwdfrydig iawn ac yn defnyddio’r Gymraeg yn gyson. O ganlyniad, mae’r rhan fwyaf o blant yn defnyddio’r Gymraeg yn hyderus.

**Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Da**

Mae’r ymarferwyr yn cydweithio’n effeithiol er lles y plant. Mae ganddynt ddisgwyliadau uchel ac mae eu haddysgu yn cynnig cyfleoedd difyr i’r plant ddysgu trwy brofiadau diddorol. Enghreifftiau da yw trin anhwylderau ei gilydd gyda rhwymynnau a thermomedrau ym meddygfa’r doctor, a defnyddio sialc ar fyrddau du i dynnu lluniau o’u cyrff.

Mae ymarferion dyddiol yr ymarferwyr yn adlewyrchu athroniaeth y cyfnod sylfaen yn ddeallus. Maent yn holi’r plant yn gelfydd, sy’n effeithio’n bwrpasol ar wella’u medrau. Maent yn ymyrryd yn synhwyrol yn ystod gweithgareddau, sy’n cefnogi dysgu annibynnol y plant yn llwyddiannus. O ganlyniad, mae’r ymarferwyr yn trafod yn synhwyrol gyda’r plant beth sydd angen iddynt ei wneud i wella’u gwaith. Fodd bynnag, nid yw’r gweithdrefnau asesu yn olrhain cynnydd plant yn gwbl effeithiol, i’w symud ymlaen i’r camau nesaf yn eu dysgu yn brydlon.

Mae’r ymarferwyr yn cynllunio cyfleoedd gwerthfawr i ddatblygu medrau llythrennedd y plant. Maent yn ailadrodd geiriau ac ymadroddion cyson, a chanu hwiangerddi bywiog, i gyfoethogi iaith y plant. Mae eu harferion rheolaidd yn annog y plant i ddefnyddio’u medrau rhifedd yn effeithiol, fel gwario ceiniogau i brynu cynnyrch yn siop y fferm a dosbarthu gwrthrychau yn ôl eu siâp a’u lliw. Mae’r ddarpariaeth i ddatblygu medrau TGCh y plant yn gadarn ac yn cynnig cyfleoedd da iddynt ddefnyddio cyfarpar technolegol i wella’u medrau cynnar. Yn ogystal, mae’r ymarferwyr yn cynllunio’n ddoeth i ddatblygu medrau creadigol y plant. Er enghraifft, maent yn eu harwain tuag at îsl i beintio hunanbortreadau ac yn eu hannog i berfformio ystumiau priodol wrth ganu. Fodd bynnag, nid yw’r cynllunio o ran gweithgareddau corfforol yn cynnig ystod o weithgareddau amrywiol i’r plant.

Mae pwyslais clir gan ymarferwyr ar ddatblygu medrau ysbrydol, moesol a chymdeithasol y plant. Maent yn dathlu amrywiaeth yn synhwyrol trwy astudio arferion Hanukkah a dathlu gwyliau fel Diwali. Yn ogystal, maent yn hyrwyddo ymwybyddiaeth y plant o ddiwylliant Cymru yn llwyddiannus, trwy astudio Castell Caerdydd a dathlu gŵyl Gymreig y brif ddinas yn flynyddol.

Er bod yr ymarferwyr yn cynllunio ymweliadau gwerthfawr, nid ydynt yn defnyddio ymwelwyr yn fuddiol, sydd yn cyfyngu ymwybyddiaeth y plant o alwedigaethau trigolion eu milltir sgwâr. Mae'r ymweliadau diddorol yn cynnwys mynychu'r llyfrgell gyfagos a gardd gymunedol y ganolfan gelfyddydau leol i fwydo'r adar.

Mae'r lleoliad yn cynnal cyfarfodydd anffurfiol gyda rhieni a gofalwyr i drafod cynnydd eu plant. Yn ogystal, maent yn darparu llyfrynnau manwl iddynt, sy'n adlewyrchu cyflawniadau eu plant yn effeithiol.

**Yr amgylchedd: Da**

Mae ansawdd yr amgylchedd yn dda ac yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr ac ymestynnol i blant tu mewn i'r adeilad. Mae'r ymarferwyr yn trefnu'r amgylchedd mewnol yn ystyriol i sicrhau ardaloedd diddorol ac ysgogol, sy'n darparu profiadau cyfoethog i blant. Maent yn defnyddio festri'r capel fel prif ystafell, sy'n eang, deniadol ac yn elwa o olau dydd naturiol. O ganlyniad, mae ardaloedd ar gael i blant i ddatblygu'n greadigol, i orffwys, i fwyta'n annibynnol ac i eistedd gyda'i gilydd yn ystod sesiynau torfol. Yn achlysurol, mae'r ymarferwyr yn defnyddio'r gwagle i gynnig sesiynau dawnsio a neidio i'r plant. Er bod yr ardal allanol yn gyfyng, mae gweithgareddau pwrpasol ar gael i blant, fel wal ddringo, adnoddau i gydbwyso, cegin fwd a chyfleoedd i dyfu blodau mewn potiau.

Mae'r person cofrestredig yn sicrhau bod adnoddau ar gael sy'n cyfateb i ddiddordebau'r plant. Cedwir yr offer ar lefel isel gyda labelau i nodi'r cynnwys. Mae hyn yn sicrhau bod pob plentyn yn gallu cyrraedd yr adnoddau yn hawdd. Yn ogystal, maent yn cael cyfleoedd gwerthfawr i ddewis cyfarpar yn annibynnol, sy'n hyrwyddo eu synnwyr o gyfrifoldeb yn effeithiol.

Mae'r ymarferwyr yn sicrhau bod y plant yn ddiogel trwy weithredu ar ystod o bolisïau clir a chynhwysfawr. Maent yn asesu risgau yn ddyddiol, sy'n cynnwys casglu plant o ysgol gyfagos, ac maent yn cynnal archwiliad ar sut i reoli heintiau yn fisol. Mae'r person cofrestredig yn ymateb i unrhyw faterion sy'n codi yn brydlon. Er enghraifft, maent yn ymarfer driliau tân yn rheolaidd er mwyn sicrhau bod y plant yn ymgyfarwyddo â'r trefniadau i'w diogelu. Mae'r ymarferwyr yn wyliadwrus wrth oruchwylio plant yn ystod eu gweithgareddau ac mae'r person cofrestredig yn trefnu dyletswyddau'r ymarferwyr yn dda. Er enghraifft, mae'r ymarferwyr yn defnyddio gweithdrefnau effeithiol i sicrhau bod pob plentyn yn gadael y lleoliad gyda rhiant neu berson enwebedig.

Mae'r ymarferwyr yn paratoi amgylchedd ysgogol ac yn sicrhau bod yr adnoddau'n elwa pob plentyn. Mae gan y lleoliad nifer o arddangosfeydd deniadol, sy'n dathlu gwaith y plant yn llwyddiannus. Mae hyn yn hyrwyddo'r ymdeimlad o hunan-barch a hunan-werth ymysg y plant yn fwriadus. Mae'r cyfleusterau bwyta a'r tai bach yn addas i oedran y plant. Mae'r toiledau a'r cyfleusterau newid cewynnau yn lân ac yn cydymffurfio â gofynion glendid yn effeithiol. Mae'r dodrefn, cyfarpar, teganau ac

adnoddau o ansawdd da ac yn cael eu cynnal a'u cadw'n effeithlon. Yn ogystal, mae'r ymarferwyr yn darparu cyfleoedd rheolaidd i blant ddysgu'n bwrpasol am ailgylchu adnoddau fel papur a bwyd.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da**

Ar hyn o bryd, mae'r person cofrestredig yn gweithredu fel y person â gofal, ac mae hi'n llywio cyfeiriad pwrpasol i weithdrefnau'r lleoliad. Mae ganddi weledigaeth gadarn, sy'n sicrhau bod yr addysgu a'r gofal yn gwella deilliannau'r plant, trwy brofiadau difyr, ysgogol a chynorthwyol. O ganlyniad, mae'r arferion trwyadl, a pholisïau'r lleoliad, yn canolbwyntio'n drylwyr ar fodloni anghenion y plant.

Mae'r person cofrestredig yn gweithio'n gydwybodol gyda'r ymarferwyr ymroddgar ac mae ganddynt ddisgwyliadau uchel o ran eu hunain a'r plant. Maent yn cymell y plant i wella'u gwaith yn gyson mewn ffyrdd cefnogol a thrwy addysgu bwriadus.

Mae diwylliant cadarnhaol o hunanwerthuso yn treiddio trwy waith y lleoliad. Mae'r ymarferwyr yn sicrhau ystyriaeth lawn i farnau ei gilydd, rhieni a gofalwyr, y plant ac asiantaethau allanol. Maent yn cynnal trafodaethau rheolaidd gyda phawb sy'n gysylltiedig â'r lleoliad i wella'r profiadau dysgu ymhellach. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar wella'r agweddau sydd angen eu datblygu. Er enghraifft, maent yn gweithredu ar awgrymiadau rhieni a gofalwyr yn ddoeth, fel defnyddio cyfryngau cymdeithasol i gyfleu gwybodaeth am brofiadau'r plant yn y lleoliad.

Mae aelodau'r pwyllgor rheoli yn gefnogol ac yn gwrando'n synhwyrol ar awgrymiadau'r person cofrestredig a'r swyddogion o'r asiantaethau allanol. Mae gan y pwyllgor rheoli drefniadau addas i fonitro gwaith y lleoliad. Maent yn dilysu penderfyniadau'r person cofrestredig yn briodol i adnabod cryfderau'r lleoliad a'r materion i'w gwella. Mae'r gweithdrefnau hyn yn sicrhau targedau dibynadwy yn y cynllun datblygu. Fodd bynnag, nid yw'r arferion monitro, ar gyfer goruchwylio a gwerthuso'r gweithdrefnau arwain, yn gyson a sefydlog.

Mae'r person cofrestredig a'r pwyllgor rheoli yn dyrannu adnoddau yn synhwyrol. Maent yn sicrhau digon o ymarferwyr cymwys ac yn galluogi iddynt fynychu hyfforddiant perthnasol i fodloni anghenion y plant yn effeithiol. Yn ogystal, mae'r defnydd o'r gyllideb a grantiau yn blaenoriaethu gwariant yn erbyn targedau'r cynllun datblygu yn ddeallus. O ganlyniad, mae eu hagweddau cadarnhaol yn hyrwyddo gwell profiadau i'r plant, trwy gyllido adnoddau defnyddiol, fel cegin fwd a wal ddringo yn yr awyr agored.

Mae gan y lleoliad ystod o bartneriaethau effeithiol, fel y rhieni a gofalwyr a swyddogion y capel. Maent yn gweithio'n llwyddiannus gyda'r partneriaid i wella'r ddarpariaeth a deilliannau'r plant. Mae'r rheni a gofalwyr yn mynychu cyngherddau a digwyddiadau elusennol yn ffyddlon i gefnogi eu plant ac i godi arian. Yn ogystal, mae cysylltiadau cadarnhaol yn bodoli gyda'r ysgolion lleol. O ganlyniad, mae trefniadau da ar waith i sicrhau bod y plant yn trosglwyddo i'r cam nesaf yn eu haddysg yn ddidrafferth.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan AGC ac Estyn (http://careinspectorate.wales) (www.estyn.llyw.cymru)

Mae AGC ac Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig y mae angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Cryfderau yn gorbwyso gwendidau ond mae angen gwelliannau |
| **Gwael** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau ac mae angen gwelliannau sylweddol |

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2020: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 15/05/2020